**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

13 Mawrth 2024

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Annwyl Vaughan a Dawn,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2024 yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25'.

**1.** Mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i Strategaeth Ddiwylliant newydd i ymgysylltu â'r sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, ac yn dilyn hynny, y Cytundeb Cydweithio. Nodwn yn eich ymateb fod y refeniw a ddyrannwyd i gyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant yn 2024-2025 yn cael ei ailbwrpasu i liniaru effaith colli swyddi yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Er ein bod yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd i sicrhau cymaint o swyddi â phosibl, byddem yn croesawu amlinelliad o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar amserlenni ar gyfer cyflawni a gweithredu'r Strategaeth Ddiwylliant hir-ddisgwyliedig.

**2.** Yn adroddiad y Pwyllgor, a gohebiaeth arall ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024, rydym wedi codi pryderon am yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac uwchraddio sydd ei angen o amgylch ystadau Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Clywsom mewn tystiolaeth gan Amgueddfa Cymru ym mis Rhagfyr 2023 fod cyflwr presennol adeilad yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yn peri risg wirioneddol i'n trysorau cenedlaethol a bod staff hyd yn oed wrth gefn pan fydd glaw trwm, i dynnu paentiadau oddi ar waliau i'w hamddiffyn rhag dŵr. Rydym wedi eich annog i wneud amddiffyn y casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol ac i ddod o hyd i gyllid ychwanegol i sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol yn cael eu diogelu'n briodol.

**3.** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, rydym yn parhau i gael sylwadau yn mynegi pryder am effaith drychinebus y toriadau yn y gyllideb ar y sector treftadaeth a diwylliant yng Nghymru, ac ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd hyn yn anochel yn arwain at weithlu llai a cholli gwybodaeth ac arbenigedd yn barhaol, yn ogystal â rhaglenni gwaith sydd wedi'u lleihau'n sylweddol sy'n cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

**4.** Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod y penderfyniadau eithriadol o anodd y bu'n rhaid i chi eu gwneud ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf, a'r angen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd. Os bydd unrhyw ddyraniad cyllid canlyniadol pellach gan Lywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddem yn argymell yn gryf y dylid rhoi ystyriaeth flaenoriaethol i'r sefydliadau hynny a chyrff hyd braich yn y sectorau diwylliant a threftadaeth, ac i fynd i'r afael â'r risgiau parhaus i'r casgliadau cenedlaethol.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.